| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Ardal Dwyfor |
| **DYDDIAD** | 20 Rhagfyr 2010 |
| **TEITL** | Cynllun Ymestyn Angorfeydd yn Harbwr Porthmadog |
| **ARGYMHELLIAD** | Cefnogi'r cynllun Clwb Hwylio Madog i ymestyn cyfleuster pontwn harbwr Porthmadog. |
| **AWDUR** | Uwch Reolwr Economi a Chymuned. |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Roy Owen |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn 2005/6 rhoddwyd ganiatad i Glwb Hwylio Madog i leoli angorfeydd pontŵn yn ardal Cei Greaves yn harbwr Porthmadog. Mae'r angorfeydd pontŵn yma yn boblogaidd iawn ac yn cael eu defnyddio drwy'r gydol y flwyddyn. Wrth ddatblygu'r cynllun gwreiddiol, fe nodwyd y byddai potensial ymestyn y cyfleusterau angori pe byddai gofyn ychwanegol am angorfeydd pontŵn.

1.2 Fel Rhan 2 o'r weledigaeth wreiddol, mae Clwb Hwylio Madog wedi cyflwyno cais yn gofyn caniatâd y Cyngor i ymestyn y cyfleusterau pontŵn fyddai yn darparu hyd at ddeuddeg cwch ychwanegol (sef cychod hyd at ddeuddeg medr o ben i ben).

1.3 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth am y cynllun arfaethedig, a cheisio cefnogaeth y Pwyllgor i'r bwriad.

## 2. CYNLLUN YMESTYN ANGORFEYDD, HARBWR PORTHMADOG

<u>Cyffredinol</u>

2.1 Mae'r cynllun arfaethedig yn ymweud â ymestyn yr angorfeydd pontŵn presennol yn yr harbwr. Pwrpas y cynllun yw gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cychol o fewn yr harbwr, gan gynnig mynediad hwylus a gwella'r cyfarpar o fewn yr harbwr. Byddai'r cynllun yn cael ei ariannu gan Glwb Hwylio Madog, a fyddai hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adnodd.

2.2 Mae cynllun wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 yn dangos gosodiad y pontŵn presennol, ynghyd a lleoliad yr estyniad fyddai'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain. Mae'r cynllun hefyd yn dangos y byddai'r estyniad wedi ei leoli yn agos i derfyn llithfra's harbwr, ond ni ragwelir byddai hyn yn amharu mewn unrhyw ffordd ar ddefnydd o'r llithrfa.

<u>Hawliau Statudol</u>

2.3 Roedd y cynllun gwreiddiol a ddatblygwyd yn 2005/6 uwchben Cymedr Distyll Gorllanw, ac o ganlyniad roedd angen caniatad cynllunio ffurfiol, ynghyd a hawl Cadw gan fod waliau'r harbwr wedi eu rhestru. Fodd bynnag, mae'r estyniad arfaethedig islaw Cymedr Distyll Gorllanw, ac felly tu allan i reolaeth awdurdod cynllunio lleol. Serch hynny, mae'n ofynnol i ddatblygiadau islaw Cymedr Distyll Gorlanw dderbyn Trwydded FEPA yn unol â Deddfwriaeth Amddiffyn Bwyd ac Amgylchedd 1985.

2.4 Mae Clwb Hwylio Madog wedi cyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a bellach wedi derbyn Trwydded FEPA. Tra fod y datblygiad oddi fewn Ardal cadwraeth

Arbennig, nid oes yna unrhyw fygythiad amgylcheddol ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cadarnhau hyn drwy broses ymgynghori cais Trwydded FEPA

2.5 Yn ogystal, mae Tŷ'r Drindod wedi ymgynghori gydag Awdurdodau Harbwr ac nid oes gwrthwynebiad i'r estyniad, ond yn nodi y byddai angen sicrhau bod goleuadau mordwyo wedi eu lleoli naill ben i'r datblygiad. Mae trafodaethau hefyd wedi eu cynnal gyda asiant Stad y Gorol sydd wedi rhoi'r hawl i'r Cyngor ystyried y cynllun.

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog

2.6 Fe trafodwyd y cynllun arfaethedig yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol yn mis Medi eleni. Tra'n gefnogol i'r bwriad, gofynodd aelodau'r pwyllgor am sicrwydd gan y Clwb Hwylio na fyddai'r cynllun yn cyfyngu ar ddefnydd y pontŵn ymwelwyr presennol. Ers hynny, mae'r Clwb Hwylio wedi cadarnhau trefniadau yn unol a'r gofynion yma.

2.7 O ganlyniad i'r estyniad arfaethedig, byddai rhai angorfeydd cyffedin o fewn yr harbwr yn cael eu colli. Yn ystod trafodaethau gyda'r Clwb Hwylio, nodwyd hefyd yr angen i sicrhau na fyddai'r cynllun yn arwain at golled ariannol i'r Cyngor.

2.8 Uchafswm incwm a fyddai'n bosib i'w derbyn drwy ddefnydd yr angorfeydd cyffredin fyddai yn cael eu colli yw £2,900 (cyfnod 2010/11). Pe byddai 10 cwch wedi ei angori ar y estyniad arfaethedig i'r pontwn, amcangyfrifir y byddai incwm drwy Dollau Harbwr (seiliedig ar ffioedd 2010/11) yn £3,100. Golyga hyn na fyddai colled incwm i'r Cyngor o ganlyniad i'r cynllun, na chostau pellach i archwilio, a chynnal a chadw'r angorfeydd cyffredin dan sylw.

2.9 Mae'r Cyngor hefyd wedi gohebu gyda'r Clwb Hwylio yn pwysleisio na ddylai'r estyniad amharu ar lif dwr yr harbwr unai ar y llif neu ar y trai. Pe byddai'r datblygiad yn effeithio ar unrhyw angorfa gyffredin gyfagos, byddai'n ofynnol i'r Clwb Hwylio Madog dderbyn cyfrifoldeb am ail-leoli neu gryfhau unrhyw angorfa a fyddai yn dioddef oherwydd newid yn llif dwr yr harbwr.

Amserlen

2.10 Gan fod hawliau statudol eisoes mewn lle, mae'r Clwb Hwylio yn awyddus i fwrw ymlaen gyda'r cynllun, gan anelu i'w ddatblygu yn ystod mis Chwefror 2011 a bod cychod wedi eu angori ar y pontwn yn ystod mis Mawrth 2011.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Yn seiliedig ar yr uchod, argymhellir fod Aelodau Pwyllgor Ardal Dwyfor yn cefnogi'r cais gan Glwb Hwylio Madog ar gyfer ymestyn cyfleusterau angori pontwn yn harbwr Porthmadog.